



AR GYFER BUSNES
CAMBRIA
FOR BUSINESS




COLEG
CAMBRIA




Prentisiaethau
Apprenticeships



Canllaw **Prentisiaethau**





Rydym yn cynnig Prentisiaethau yn y rhan fwyaf o feysydd galwedigaethol gan gynnwys;

Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladau
Amaethyddiaeth ac Amaethyddiaeth Fanwl Gywir
Addysgu, Aseu ac Addysg
Blodeuwriaeth
Busnes, Rheoli ac Arwain
Ceffyleg
Cerbydau Modur
Coedwigaeth a Chefn Gwlad
Cyfrifeg
Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol
Garddwriaeth a Thirlunio
Gofal a Rheolaeth Anifeiliaid
Gofal Plant, Astudiaethau Plentynodod a Gwaith Chwarae
Gwaith Warws a Logisteg
Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Cyngor ac Arweiniad
Gweinyddu Busnes
Gweithgynhyrchu Bwyd
Gwneuthuro a Weldio
Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Lletygarwch ac Arlwy
Peirianeg, Gweithgynhyrchu a Chynnal a Chadw
Technolegau Digidol, Cyfrifiadura a TG
Trin Gwallt a Thorri Gwallt Dynion
Therapiau Harddwch, Sba a Chyflenwol

Beth yw Prentisiaeth?

Mae Prentisiaeth yn rhoi'r cyfle i chi ennill cymhwyster wrth fod mewn cyflogaeth ac ennill cyflog. Byddwch yn ennill sgiliau a phrofiad hanfodol ar gyfer y gweithle, ochr yn ochr â chymwysterau a gydnabyddir gan y diwydiant i'ch helpu i dyfu yn eich gyrfa. Er mwyn cwblhau Prentisiaeth mae'n rhaid i chi fod mewn cyflogaeth mewn swydd sy'n berthnasol i'r cymhwyster rydych yn dymuno ei gwblhau a chael cefnogaeth gan eich cyflogwr.



Sut mae'n gweithio?

Yng Nghymru, mae angen i brentisiaid fod yn 16+ ac yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos i gwblhau Prentisiaeth. Mae'n rhaid i'r cyflogwr fod yn barod i'ch cefnogi chi trwy eich Prentisiaeth gan y byddwch yn cael eich asesu yn y gweithle ac efallai bydd angen i chi fynd i'r coleg yn rheolaidd (mae hyn yn dibynnu ar y cymhwyster) i ddysgu sgiliau newydd a chwblhau arholiadau.

Bydd ymarferydd profiadol yn y diwydiant yn cael eu neilltuo i chi a byddant yn dod i'ch gweithle ac yn gosod tasgau i chi gasglu tystiolaeth a fydd yn cyfrannu at eich cymhwyster. Byddant yn gwirio eich llesiant ac yn sicrhau nad oes unrhyw broblemau neu yn eich cyfeirio at gymorth ychwanegol yn Cambria os oes angen.

Gall Prentisiaethau gael eu cyflwyno ar Lefel 2 - Lefel 6

Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2

Dyma'r man cychwyn i brentisiaethau, mae'n rhoi'r sylfeini a dealltwriaeth o'r swydd i chi.

Prentisiaeth Lefel 3

Mae Lefel 3 yn ddilyniant o Lefel 2 ac yn rhoi gwybodaeth ddyfnach i chi o'r pwnc ac yn cyfateb i 2 radd pasio Safon Uwch. Efallai bydd angen i chi fod mewn swydd benodol er mwyn bod yn gymwys.

Prentisiaeth Uwch Lefel 4 a 5

Mae cymwysterau NVQ Lefel 4/5 neu HNC fel arfer yn cyfateb i flwyddyn gyntaf y brifysgol. Mae angen lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth i astudio ar y lefel hon.

Prentisiaeth Gradd Lefel 6

Mae'r cymwysterau Lefel 6 yn raddau a ddarperir mewn partneriaeth â'n partneriaid prifysgol.

Darganfod Prentisiaeth

Byddwch yn rhagweithio!

SIOP SWYDDI  **JOB SHOP**

Gall darganfod prentisiaeth addas i chi gymryd amser ond mae fel chwilio am swydd, bydd rhywbeth perffaith yn ymddangos yn fuan!

Cadwch lygad ar Wasanaeth Prentisiaethau Gwag Llywodraeth Cymru ac ar Siop Swyddi Coleg Cambria i weld cyfleoedd, yn ogystal â chwilio ar safleoedd swyddi eraill a chysylltu â chwmnïau yn uniongyrchol.

Canllaw
Prentisiaethau
Apprenticeships
Guide



0300 30 30 006 WWW.CAMBRIA.AC.UK

Paratoi eich CV a gwneud cais

Beth am fireinio eich CV a'ch sgiliau cyfweiliad cyn gwneud cais ar gyfer bob swydd a chadwch lygad ar eich blwch e-bost a'ch ffôn am wahoddiad i gyfweiliad! Efallai bydd rhai cwmnïau yn gofyn i chi ddod i mewn am dreial gwaith cyn cynnig y swydd i chi neu ofyn i chi gwblhau prawf byr.

Cael lle ar y cymhwyster

Ar ôl i chi ddechrau eich swydd, bydd angen i'r cwmni sy'n eich cyflogi gysylltu â ni i drafod y cymhwyster ac arwyddo gwaith papur.

Awgrym gorau!

Os rydych yn fyfyrwr presennol gallwch ofyn i'r Siop Swyddi am help gyda'ch CV ac awgrymiadau ar gyfer cyfweiliadau.

Cwestiynau Cyffredin Rhieni / Chwedlau am Brentisiaethau

Gallwch chi wneud prentisiaeth heb gyflogwr
Anghywir! Mae angen cyflogwr arnoch i wneud Prentisiaeth

Mae prentisiaethau ar gyfer crefftiau adeiladu yn unig
Anghywir! Gallwch wneud prentisiaeth mewn sawl sector - Cyllid, Digidol, Rheoli, Amaethyddiaeth, Lletygarwch ac Arlwyyo, Trin Gwallt a Harddwch - i enwi ond ychydig!

Nid yw Prentisiaid yn cael eu talu
Anghywir! Mae'n rhaid i Brentisiaid gael eu talu o leiaf yr isafswm cyflog Prentisiaeth gan eu cyflogwr, ond mae'r rhan fwyaf o leoedd yn talu rhagor. Gallwch weld y gofynion cyflog diweddaraf ar wefan y Llywodraeth.

Nid yw'n bosib mynd i Addysg Uwch gyda Phrentisiaeth
Yn Cambria, gallwch wneud Prentisiaethau Gradd gyda llawer o gyflogwyr mewn sectorau fel Peirianeg, Awyrofod a Digidol.

Pa gymorth gall Prentisiaid ei gyrchu?
Mae llawer o gymorth ar gael i Brentisiaid trwy'r Coleg gan gynnwys trwy eu hasesydd a Gwasanaethau Myfyrwyr. Gall myfyrwyr gyrchu ACAS neu wasanaethau cynghori eraill am gyngor.

Beth ddylwn i'w wneud os nad oes gennyf gyflogwr?
Gall darganfod cwmni a swydd sy'n addas i chi gymryd amser felly mae'n well cofrestru ar gwrs llawn amser wrth i chi chwilio.

Rydym yn cynnig Prentisiaethau yn y rhan fwyaf o feysydd galwedigaethol gan gynnwys;

- Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladau (crefftiau amrywiol)
- Amaethyddiaeth
- Arwain a Datblygu
- Arwain a Rheoli
- Blodeuwriaeth
- Ceffyleg
- Cerbydau Modur
- Cyfrifeg
- Cyngor ac Arweiniad
- Cynorthwyo Addysgu a Dysgu
- Garddwriaeth
- Gofal Anifeiliaid
- Gofal Plant
- Gwaith Chwarae
- Gwaith Warws a Logisteg
- Gwasanaethau i Gwsmeriaid a Manwerthu
- Gweinyddu Busnes
- Gweithgynhyrchu
- Gweithgynhyrchu Bwyd
- Gweithrediadau Hamdden
- Gwneuthuro a Weldio
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lletygarwch ac Arlwyyo
- Peirianeg (disgyblaethau amrywiol)
- Technegwyr Labordy
- Technoleg Ddigidol
- Trin Gwallt a Harddwch

Adeiladu - Crefftau, Plymwaith a Gosod Trydan

Mae sector adeiladu'r DU yn ddiwydiant gwerth biliynau o bunnoedd ac mae prentisiaid adeiladu yn rhan enfawr o'r gweithlu ar draws amrywiol ddisgyblaethau adeiladu.

Mae'r sector hwn yn gyfle gwyb i ddysgwyr y mae'n well ganddynt fod yn ymarferol yn eu gwaith a gall arwain at swyddi rheoli a thechnegol mewn swyddfa.

Bydd Prentisiaid Adeiladu yn treulio amser yn ein cyfleusterau o'r radd flaenaf a adnewyddwyd yn ddiweddar yn ein safleoedd ar Lannau Dyfrdwy neu Ffordd y Bers i gael eu rhyddhau am y dydd o'r gwaith neu i gael eu hasesu yn ogystal â chael eu hasesu ar y safle gan ein timau asesu sydd â phrofiad yn y diwydiant.

Efallai y bydd myfyrwyr sydd am astudio tuag at gymhwyster crefftau adeiladu, plymio neu osod trydan yn gallu cwtogi hyd y rhaglen os ydynt wedi cwblhau blwyddyn sylfaen yn llawn amser yn y coleg cyn cael cyflogaeth fel prentis. Mae angen i gyflogwyr crefft ac adeiladu gynnwys ystod eang o waith yn eu maes i fodloni gofynion tystiolaeth y cymhwyster.

Bydd gofyn i brentisiaid sy'n astudio cymhwyster adeiladu wneud cymysgedd o dasgau corfforol ar y safle yn y gweithle a bydd angen iddynt fod yn fanwl gywir yn eu gwaith.

Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Lefel 3 mewn Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu - Gosod electrodechnegol	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, TGAU A-C (9-4) mewn Mathemateg, Saesneg a Phwnc Technegol*	48 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Glannau Dyfrdwy a Ffordd y Bers
Lefel 3 mewn Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu - Crefftwr Gosodiadau Gwresogi ac Awyru	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, TGAU A-C (9-4) mewn Mathemateg, Saesneg a Phwnc Technegol*	48 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Glannau Dyfrdwy
Lefel 3 mewn Peirianeg Gwasanaethau - Plymwaith a Gwresogi	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, TGAU A-C (9-4) mewn Mathemateg, Saesneg a Phwnc Technegol*	48 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Glannau Dyfrdwy a Ffordd y Bers

*Er enghraifft - gwyddoniaeth neu dechnoleg ddigidol



Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Lefel 3 mewn Adeiladu - Saerŷiaeth Bensaerŷiol	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, TGAU A-C (9-3) mewn Mathemateg, Saesneg a Phwnc Technegol*	36 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Glannau Dyfrdwy a Ffordd y Bers
Lefel 3 mewn Adeiladu - Gwaith Saer ar Safle	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, TGAU A-C (9-3) mewn Mathemateg, Saesneg a Phwnc Technegol*	36 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Glannau Dyfrdwy a Ffordd y Bers
Lefel 3 mewn Adeiladu - Gosod Brics	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, TGAU A-C (9-3) mewn Mathemateg, Saesneg a Phwnc Technegol*	42 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Glannau Dyfrdwy a Ffordd y Bers
Lefel 3 mewn Adeiladu - Plastro Soled	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, TGAU A-C (9-3) mewn Mathemateg, Saesneg a Phwnc Technegol*	42 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Ffordd y Bers
Lefel 3 mewn Adeiladu - Paentio ac Addurno	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, TGAU A-C (9-3) mewn Mathemateg, Saesneg a Phwnc Technegol*	36 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Ffordd y Bers

*Er enghraifft - gwyddoniaeth neu dechnoleg ddigidol

Awgrym gorau

Ceisiwch gysylltu â chwmnïau lleol yn uniongyrchol os ydych yn chwilio am brentisiaeth adeiladu, bydd y rhan fwyaf o gyflogwyr yn y diwydiant hwn yn dechrau recriwtio ar ddiwedd y gwanwyn a thros yr haf. Gall myfyrwyr coleg llawn amser gadw llygad am ddigwyddiadau recriwtio sydd wedi'u trefnu gan y coleg i helpu i ddod o hyd i Brentisiaeth.

Adeiladu - Peirianeg Sifil a Goruchwylio Safle



Mae peirianwyr sifil yn cynllunio, rheoli, goruchwylio a dylunio prosiectau adeiladu mawr gan gynnwys ffyrdd, twneli, systemau dŵr, rheilffyrdd, meysydd awyr a gorsafoedd pŵer. Maent yn gweithio'n agos gyda rheolwyr safle a goruchwylwyr sy'n rhedeg gweithrediadau o ddydd i ddydd prosiect adeiladu megis recriwtio staff, trefnu isgontractwyr a gwneud rheoliadau iechyd a diogelwch.

Bydd prentisiaid yn treulio amser yn ein cyfleusterau o'r radd flaenaf a adnewyddwyd yn ddiweddar ar ein safle yn Ffordd y Bers i gael eu rhyddhau am y dydd o'r gwaith neu i gael eu hasesu yn ogystal â chael eu hasesu ar y safle gan ein timau asesu sydd â phrofiad yn y diwydiant.

Bydd gofyn i brentisiaid sy'n astudio ac yn gweithio yn y sector hwn feddu ar sgiliau trefnu, cyfathrebu a rheoli da.

Cyrsiau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Llwybrau	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Diploma Lefel 3 mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	<ul style="list-style-type: none"> Gweithrediadau Contractio Adeiladu, Dylunio Amgylchedd Adeiledig Peirianeg Sifil ar gyfer Technegwyr 	TGAU A-C neu lefel 4-9 mewn Mathemateg a Saesneg	24 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Ffordd y Bers
Diploma Lefel 4 mewn Goruchwylio Safle Adeiladu	<ul style="list-style-type: none"> Adeiladu a Pheirianeg Sifil Cynnal a chadw ac atgyweirio Priffyrdd Datblygu Preswyl Cadwraeth. 	TGAU A-C neu lefel 4-9 mewn Mathemateg a Saesneg	24 mis	Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Ffordd y Bers

Awgrym gorau

Ceisiwch gysylltu â chwmnïau lleol yn uniongyrchol os ydych yn chwilio am brentisiaeth adeiladu, bydd y rhan fwyaf o gyflogwyr yn y diwydiant hwn yn dechrau recriwtio ar ddiwedd y gwanwyn a thros yr haf. Gall myfyrwyr coleg llawn amser gadw llygad am ddigwyddiadau recriwtio wedi'u trefnu gan y coleg i helpu i ddod o hyd i Brentisiaeth.

Amaethyddiaeth



Os nad ydych eisiau gweithio dan do, efallai mai gweithio yn y diwydiant amaethyddol a helpu i dyfu a darparu adnoddau hanfodol yw'r yrfa berffaith i chi!

Mae amaethyddiaeth yn chwarae rhan sylweddol yn economi Cymru, gan gyflogi canran uwch o'r gweithlu yng Nghymru na mewn rhannau arall o'r DU, felly beth am ymuno â ni yn y sector hanfodol hwn!

[Publications.parliament.uk, 2022]

Bydd prentisiaid yn cael eu hasesu yn y gwaith gan ein timau sydd â phrofiad yn y diwydiant a byddant yn gallu cyrchu adnoddau'r coleg i'w helpu gyda'u hastudiaethau.

Bydd angen i ddysgwyr sy'n cwblhau'r cymwysterau hyn fod â lefel ffitrwydd a chryfder da, gallu gweithio gydag eraill a bod â sgiliau cyfathrebu da.

Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Lefel 2 mewn Amaethyddiaeth	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	24 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gwaith
Lefel 3 mewn Amaethyddiaeth	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	21 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gwaith

Ystadegau diwydiant

Mae 90% o'r tir yng Nghymru wedi'i neilltuo ar gyfer ffermio, felly mae llawer iawn o dir i'w ofalu amdano!

[Gov.wales, 2021]

Awgrym gorau

Cysylltwch â busnesau lleol ac ewch â CV gyda chi, efallai nad ydynt wedi ystyried cyflogi Prentis o'r blaen!

Canllaw
Prentisiaethau
Apprenticeships
Guide



0300 30 30 006 WWW.CAMBRIA.AC.UK

Blodeuwriaeth

Mae prentisiaeth mewn Blodeuwriaeth yn gyfle i fod yn greadigol a dylunio trefniadau unigryw ar gyfer achlysuron arbennig fel priodasau, digwyddiadau a phenblwyddi! Bydd angen i chi gynghori cwsmeriaid ar y cynnyrch gorau ar gyfer eu hanghenion a bod yn greadigol gyda dyluniadau newydd.

Bydd angen i'r dysgwyr a fydd yn cwblhau'r cymwysterau hyn allu bodloni gofynion corfforol o weithio gyda'u dwylo trwy'r dydd, a gallu addasu a bod â sgiliau gwasanaethau i gwsmeriaid da.

Asesir y cwrs hwn yn y gweithle gan ein timau sydd â phrofiad yn y diwydiant.

Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Lefel 2 mewn Blodeuwriaeth	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	18 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gwaith
Lefel 3 mewn Blodeuwriaeth	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	18 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gwaith

Awgrym gorau

Cysylltwch â busnesau lleol ac ewch â CV gyda chi, efallai nad ydynt wedi ystyried cyflogi Prentis o'r blaen!

Ceffyleg



Os oes gennych ddi-ddordeb brwd mewn ceffylau, efallai dyma'r cyfle perffaith i chi symud ymlaen yn y diwydiant ac ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol neu dystysgrifau Cymdeithas Ceffylau Prydain. Mae llwybrau yn y cymwysterau hyn yn cynnwys marchogaeth, bridio a hyfforddi.

Asesir prentisiaid yn y gwaith gan ein timau asesu sydd â phrofiad yn y diwydiant.

Mae angen i ddysgwyr a fydd yn cwblhau'r cymwysterau hyn fod â'r gallu i beidio â chynhyrfu, yn amyneddgar ac yn hyderus wrth weithio gyda cheffylau. Bydd angen i chi fod â lefel ffitrwydd a chryfder da.

Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac Asesu	Lleoliad
Lefel 2 City & Guilds neu Gymdeithas Ceffylau Prydain mewn Ceffyleg, Gofal Ceffylau, Marchogaeth a Hyfforddi	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	18 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gwaith
Lefel 3 City & Guilds neu Gymdeithas Ceffylau Prydain mewn Ceffyleg, Gofal Ceffylau, Marchogaeth a Hyfforddi	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	18 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gwaith
Lefel 4 Cymdeithas Ceffylau Prydain mewn Gofal a Rheoli Uwch	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	18 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gwaith

Awgrym gorau

Cysylltwch â busnesau lleol ac ewch â CV gyda chi, efallai nad ydynt wedi ystyried cyflogi Prentis o'r blaen!

Coedwigaeth a Chefn Gwlad

Os ydych chi wrth eich bodd yn yr awyr agored, yn sefyll o dan ganopi o goed neu'n cerdded drwy goetir â'r ddaear wedi'i orchuddio â mwsogl, yna byddai Prentisiaeth mewn Coed a Phren yn ddefnyddiol i chi.

O ddatrys dirgelion gwahanol rywogaethau coed i ddeall sut maen nhw'n ffynnu mewn ecosystemau amrywiol, byddwch yn ymchwilio i galon y goedwig ac yn dysgu celfyddyd coedyddiaeth, meistrolï'r sgiliau i ofalu am goed a'u trin mewn tirweddau trefol a naturiol.

Paratowch i gael eich dwylo yn fudr gyda gwaith ymarferol drwy gydol y flwyddyn a'r angen am sgiliau tîm a chyfathrebu da.



Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Lefel 2 mewn Coed a Phren	Gweithio mewn diwydiant perthnasol	18 mis	Asesiad yn y gwaith, gweithlyfrau a gwaith theori	Gweithle
Lefel 3 mewn Coed a Phren	Gweithio mewn diwydiant perthnasol, cymhwyster Lefel 2 neu gyfwerth	21 mis	Asesiad yn y gwaith, gweithlyfrau a gwaith theori	Gweithle

Wyddoch chi

Mae gan y sector coedwigaeth yng Nghymru Werth Ychwanegol Gros blynyddol o £499.3 miliwn ac mae'n cyflogi rhwng 8,500 ac 11,300 o bobl.

[Cyfoeth Naturiol Cymru, Mehefin 2023]

Awgrym gorau

Cysylltwch â busnesau lleol a rhowch gopi o'ch CV iddyn nhw, efallai nad ydyn nhw erioed wedi meddwl am logi Prentis o'r blaen!

Canllaw
Prentisiaethau
Apprenticeships
Guide



0300 30 30 006 WWW.CAMBRIA.AC.UK

Cyfrifeg

Mae Cyfrifwyr yn gyfrifol am agwedd ariannol busnesau o bob maint a dibynnir arnynt i ddarparu darlun manwl o'r cwmni. Bydd prentisiaid yn y diwydiant hwn yn gweithio ar y cyd â thimau profiadol i ennill eu gwybodaeth yn ogystal â mynd ar ddiwrnodau astudio.

Mae angen i ddysgwyr sy'n cwblhau'r cymwysterau hyn gael sgiliau ffigurau da, sgiliau TG a gallu cyfathrebu'n glir

Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Tystysgrif Lefel 2 AAT mewn Cyfrifeg	Yn gweithio mewn diwydiant perthnasol, TGAU graddau A-C mewn Mathemateg a Saesneg	12 mis	Diwrnod Astudio	Diwrnod astudio yn Ysgol Fusnes Cambria a Safle Iâl
Tystysgrif Lefel 3 AAT mewn Cyfrifeg	Yn gweithio mewn diwydiant perthnasol, TGAU graddau A-C mewn Mathemateg a Saesneg	12 mis	Diwrnod Astudio	Diwrnod astudio yn Ysgol Fusnes Cambria a Safle Iâl
Diploma Proffesiynol Lefel 4 AAT mewn Cyfrifeg	Yn gweithio mewn diwydiant perthnasol, tystysgrif Lefel 3 AAT mewn Cyfrifeg	12 mis	Diwrnod Astudio	Diwrnod astudio yn Ysgol Fusnes Cambria a Safle Iâl

Wyddoch chi

Y cyflog cychwynnol cyfartalog disgwylidig ar gyfer cyfrifwyr cymwys yw £28,000 gyda chyfrifwyr profiadol yn gallu ennill hyd at £40,000

[Careerswales.gov.wales, 2022]

Awgrym gorau

Mae cyfrifwyr yn ystyried recriwtio prentisiaid dros fisoedd y gwanwyn a'r haf i fod yn barod i ddechrau prentisiaeth ym mis Medi.

Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol



Mae cyfryngau cymdeithasol a marchnata digidol yn dod yn rhan greiddiol o fusnesau ym mhob diwydiant. Mae'r defnydd o gyfryngau digidol i ddenu ac ymgysylltu â chwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid, i godi ymwybyddiaeth brand, ac i gynhyrchu data dadansoddol cyfoethog, yn hanfodol yn amgylchedd busnes heddiw.

Mae'r cwrs hwn yn cael ei asesu yn y gweithle ac yn yr ystafell ddosbarth gan ein timau sydd â phrofiad yn y diwydiant ac mae angen rhyddhau dysgwyr o'r gwaith am ddiwrnod i'n safle coleg Glannau Dyfrdwy lle bydd dysgwyr yn cael cyrchu cyfleusterau a thechnoleg o'r radd flaenaf i helpu eu dysgu.

Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Gofynion mynediad	Hyd	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Prentisiaeth Lefel 3 mewn Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	12 mis	Yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Glannau Dyfrdwy
Prentisiaeth Lefel 4 mewn Marchnata Digidol	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	24 mis	Yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Glannau Dyfrdwy

Wyddoch chi?

Asesir y cwrs hwn yn y gweithle ac yn y dosbarth gan ein timau sydd â phrofiad yn y diwydiant ac mae angen diwrnod rhyddhau o'r gwaith i'n safle Glannau Dyfrdwy lle bydd dysgwyr yn gallu cyrchu ein cyfleusterau o'r radd flaenaf a thechnoleg i helpu gyda'u dysgu.

[Statista, 2022]

Awgrym gorau

Cysylltwch â busnesau lleol ac ewch â CV gyda chi, efallai nad ydynt wedi ystyried cyflogi Prentis o'r blaen!

Canllaw
Prentisiaethau
Apprenticeships
Guide



0300 30 30 006 WWW.CAMBRIA.AC.UK

Cynorthwyo addysgu a dysgu

Mae swyddi yn y sector hwn yn cefnogi athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd i helpu disgyblion gyda'u dysgu naill ai un i un neu mewn grwpiau bach. Bydd prentisiaid yn gweithio'n agos gyda staff addysgu a rheni i sicrhau bod disgyblion yn cael y gorau o'u hamser yn yr ysgol

Bydd prentisiaid yn treulio amser yn dysgu'r wybodaeth graidd yn ogystal â chael eu hasesu yn y gweithle gan ein timau asesu sydd â phrofiad y diwydiant.

Bydd angen llawer o egni, amynedd a gallu gweithio'n dda fel rhan o dîm ar ddysgwyr yn y diwydiant hwn.

Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Lefel 2 mewn cynorthwyo addysgu a dysgu mewn ysgolion	Cyflogaeth mewn ysgol/ lleoliad addysg	16 mis	Yn y gwaith	Yn y gwaith
Lefel 3 mewn cynorthwyo addysgu a dysgu mewn ysgolion	Cyflogaeth mewn ysgol/ lleoliad addysg	16 mis	Yn y gwaith	Yn y gwaith

Ystadegau diwydiant

Mae disgwyl y bydd 688 o swyddi ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu a swyddi cysylltiedig bob blwyddyn yng Nghymru tan 2027

[Careerswales.gov.wales, 2022]

Awgrym gorau

Ceisiwch gysylltu ag ysgolion lleol yn uniongyrchol os ydych yn chwilio am brentisiaeth neu cadwch lygad am ddigwyddiadau recriwtio sydd wedi'u trefnu gan y Coleg os ydych yn fyfyrwr llawn amser.

Canllaw
Prentisiaethau
Apprenticeships
Guide



0300 30 30 006 WWW.CAMBRIA.AC.UK

Garddwriaeth a Chadwraeth Amgylcheddol



Os rydych yn hoff o fod yn yr awyr agored a gweithio'n ymarferol, gall y diwydiant hwn fod yn berffaith i chi, byddwch yn gweithio yn yr awyr agored trwy'r flwyddyn er mwyn cadw manau yn yr awyr agored i edrych ar eu gorau a byddwch yn datblygu technegau newydd i ddatblygu eich hunain a'r diwydiant.

Bydd prentisiaid yn cael eu hasesu yn y gwaith gan ein timau sydd â phrofiad yn y diwydiant ac yn gallu cyrchu cymorth yn y coleg.

Bydd angen i ddysgwyr a fydd yn cwblhau'r cymwysterau hyn allu bodloni gofynion corfforol o weithio yn yr awyr agored, bydd angen iddynt allu addasu a gweithio fel rhan o dîm.

Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Llwybrau	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Lefel 2 mewn Garddwriaeth	Tirlunio, Parciau, Gerddi a Mannau Gwyrdd, Garddwriaeth Cynhyrchu, Meysydd Chwaraeon	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	24 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gwaith
Lefel 3 mewn Garddwriaeth	Tirlunio, Parciau, Gerddi a Mannau Gwyrdd, Garddwriaeth Cynhyrchu, Meysydd Chwaraeon	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	24 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gwaith
Lefel 4 mewn Garddwriaeth		Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	30 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gwaith
Lefel 2 mewn Cadwraeth Amgylcheddol		Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	24 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gwaith
Lefel 3 mewn Cadwraeth Amgylcheddol		Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	18 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gwaith

Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Llwybrau	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Lefel 2 mewn Coed a Phren		Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	18 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gwaith
Lefel 3 mewn Coed a Phren		Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol a meddu ar y cymhwyster Lefel 2	21 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gwaith

Ystadegau diwydiant

Oeddech chi'n gwybod y gallwn ni gyflwyno Prentisiaethau cadw grŵn i bobl sy'n cael eu cyflogi drwy gwmnïau yn Lloegr?

Awgrym gorau

Cysylltwch â busnesau lleol ac ewch â CV gyda chi, efallai nad ydynt wedi ystyried cyflogi Prentis o'r blaen!

Gofal a Rheolaeth Anifeiliaid



Ydych chi'n hoffi anifeiliaid? Ydych chi erioed wedi ystyried gweithio gyda nhw yn broffesiynol? Yn 2021/2022 amcangyfrifwyd bod gan 62% o gartrefi yn y DU anifail anwes ac mae angen gofalu am bob un ohonynt!

Gall cwblhau prentisiaeth yn y diwydiant hwn eich helpu chi i ddod yn weithiwr yn y sw, twtiwr cŵn, technegydd milfeddygol, triniwr cŵn a chymaint rhagor. [Statista, 2022]

Asesir prentisiaid yn y gweithle gan ein timau sydd â phrofiad yn y diwydiant, a bydd prentisiaid yn gallu defnyddio adnoddau'r coleg i helpu gyda'u hastudiaethau. Bydd angen i ddysgwyr a fydd yn cwblhau'r cymwysterau hyn fod â'r gallu i beidio â chynhyrfu, bod yn amyneddgar a gallu trin anifeiliaid o bob maint yn dda.

Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Lefel 2 mewn Gofal Anifeiliaid (Trin Cŵn Gwasanaethau neu Hyfforddi Anifeiliaid)	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	24 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gweithle
Lefel 3 mewn Gofal Anifeiliaid (Trin Cŵn Gwasanaethau neu Hyfforddi Anifeiliaid)	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	24 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gweithle
Lefel 2 mewn Gofal Anifeiliaid (Gofal a Lles Anifeiliaid)	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	24 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gweithle
Lefel 3 mewn Gofal Anifeiliaid (Gofal a Lles Anifeiliaid)	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	24 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gweithle
Lefel 2 mewn Gofal Anifeiliaid (Twtio Cŵn)	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	24 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gweithle
Lefel 3 mewn Gofal Anifeiliaid (Twtio Cŵn)	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	24 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gweithle
Lefel 2 mewn Gofal Anifeiliaid (swau/bywyd gwyllt)	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	24 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gweithle
Lefel 3 mewn Gofal Anifeiliaid (swau/bywyd gwyllt)	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	24 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gweithle

Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Lefel 2 mewn Cymhorthydd Gofal Milfeddygol	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	24 mis	Asesiad yn y gwaith	Yn y gweithle
Diploma Lefel 3 CQ mewn Nyrso Milfeddygol - Anifeiliaid Bach	Cyflogaeth mewn lleoliad addysgu perthnasol i'r diwydiant a chael hyfforddwr clinigol wedi'u pennu iddynt. O leiaf 5 TGAU gradd C /4 neu uwch, gan gynnwys Mathemateg, Iaith Saesneg a Gwyddoniaeth.	33 Mis	Arholiadau, asesu yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod	Yn y gweithle a Llaneurgain

Wyddoch chi?

Disgwylir i gyfleoedd swyddi ar gyfer diwydiannau sy'n gysylltiedig â nyrsio milfeddygol godi yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf

[Ffynhonnell - Gyrfa Cymru, 2023]

Gofal Plant

Os rydych yn mwynhau gweithio gyda phlant, gall prentisiaeth mewn gofal plant fod yn yrfa berffaith i chi!

Mae angen i bobl sy'n astudio tuag at y cymhwyster hwn fod yn gweithio mewn lleoliadau gofal plant a reoleiddir gyda theuluoedd a phlant o dan 8 oed a/neu wasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant 0-19 oed.

Bydd Prentisiaid yn mynd i weithdai ac yn dysgu'r wybodaeth greiddiol yn ogystal â chael eu hasesu yn y gweithle gan ein timau sydd â phrofiad yn y diwydiant.

Bydd angen i ddysgwyr yn y diwydiant hwn fod â llawer o egni, creadigrwydd a gallu gweithio'n dda fel rhan o dîm.

Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Lefel 2 mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol fel cymhorthydd mewn amgylchedd gofal plant	16 mis	Asesiad yn y gwaith, presenoldeb mewn gweithdai, cyflwyno ar-lein ac asesiadau coleg	Yn y gweithle a rhyddhau o'r gwaith
Lefel 3 mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol mewn amgylchedd gofal plant mewn swydd goruchwyliaeth	18 mis	Asesiad yn y gwaith, presenoldeb mewn gweithdai, cyflwyno ar-lein ac asesiadau coleg	Yn y gweithle a rhyddhau o'r gwaith
Lefel 4 mewn Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol mewn amgylchedd gofal plant mewn swydd goruchwyliaeth uwch	21 mis	Asesiad yn y gwaith, presenoldeb mewn gweithdai, cyflwyno ar-lein ac asesiadau coleg	Yn y gweithle a Glannau Dyfrdwy ac Iâl
Lefel 4 mewn Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol mewn swydd reoli mewn amgylchedd gofal plant	24 mis	Asesiad yn y gwaith, presenoldeb mewn gweithdai, cyflwyno ar-lein ac asesiadau coleg	Yn y gweithle a Glannau Dyfrdwy ac Iâl
Lefel 5 mewn Arwain a Rheoli mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	9 mis	Asesiad yn y gwaith, presenoldeb mewn gweithdai, cyflwyno ar-lein ac asesiadau coleg	Yn y gweithle a Glannau Dyfrdwy ac Iâl



Ystadegau/disgwyliadau cyflog y diwydiant

Mae'r galw yn y dyfodol am Gynorthwyr Meithrin a swyddi cysylltiedig yn uchel o gymharu â swyddi eraill yng Nghymru

(EMSI, 2022)

Awgrym gorau

Ceisiwch gysylltu â chwmnïau lleol yn uniongyrchol os ydych yn chwilio am brentisiaeth neu cadwch lygad am ddiwydiadau recriwtio sydd wedi'u trefnu gan y Coleg os ydych yn fyfyrwr llawn amser.

Canllaw
Prentisiaethau
Apprenticeships
Guide



0300 30 30 006 WWW.CAMBRIA.AC.UK

Gwaith chwarae



Yn y diwydiant hwn bydd dysgwyr yn gweithio gyda phlant 5 i 15 oed mewn amrywiaeth o leoliadau i helpu i hyrwyddo datblygiad iach, llesiant plant ac i gefnogi chwarae hunangyfeiriedig y mae'r plant yn ei ddewis.

Bydd prentisiaid yn treulio amser yn dysgu gwybodaeth graidd ac egwyddorion gwaith chwarae yn y gweithle yn ogystal â chael eu hasesu gan ein timau asesu sydd â phrofiad yn y diwydiant. Bydd angen llawer o egni, creadigrwydd ar ddysgwyr yn y diwydiant hwn a gallu gweithio'n dda fel rhan o dîm.

Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Lefel 2 mewn Gwaith chwarae	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol yn gweithio gyda phlant 5 - 15 oed mewn amgylchedd chwarae	12 mis	Yn y gwaith gydag asesiad yn y gweithle	Yn y gwaith
Lefel 3 mewn Gwaith chwarae	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol yn gweithio gyda phlant 5 - 15 oed mewn amgylchedd chwarae	16 mis	Yn y gwaith gydag asesiad yn y gweithle	Yn y gwaith

Ystadegau/disgwyliadau cyflog y diwydiant

Ar ôl cymhwyso, gall gweithwyr yn y sector hwn ddisgwyl cyflog blynyddol cyfartalog o rhwng £15,000 a £22,000 yn dibynnu ar brofiad

Awgrym gorau

